Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

29 Medi 2011

Annwyl Gydweithiwr

Mae Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen er mwyn cynnal ymchwiliad i'r rhagolygon ar gyfer y cyfryngau yng Nghymru yn y dyfodol.

Dyma'r cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad:

> "Edrych ar y rhagolygon ar gyfer llwyfannau amrywiol y cyfryngau yng Nghymru yn y dyfodol drwy ymchwilio i:
>
> - Gyflwr presennol y cyfryngau yng Nghymru a sut mae technoleg newydd a datblygiadau eraill yn effeithio ar hyn, yng nghyd-destun pryderon parhaus ynghylch dyfodol y cyfryngau darlledu a phrint yng Nghymru;
> - Beth ddylai'r blaenoriaethau fod o safbwynt Cymru wrth i Lywodraeth y DU gyflwyno cynigion ar gyfer ei Bil Cyfathrebu;
> - Y cyfleoedd i adeiladu modelau busnes y cyfryngau newydd yng Nghymru; a
> - Beth mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i roi argymhellion adroddiad Hargreaves ar waith a pha gamau eraill y gellid eu cymryd i gryfhau'r cyfryngau yng Nghymru o ran cynnwys a lluosogrwydd y ddarpariaeth."

Byddai'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn croesawu'ch barn ar rai neu'r cyfan o'r pwyntiau uchod i'w helpu gyda'i ymchwiliad.


Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol / Communities, Equality and Local Government Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn / Tel : 029 2089 8429
Ebost / Email : Communities.Equality&LocalGov@wales.gov.uk

**Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymatebion gan unigolion a sefydliadau. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, rhowch ddisgrifiad byr o swyddogaeth eich sefydliad.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg neu yn Saesneg a bydd yn ystyried ymatebion i'r ymchwiliad ac yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar yn ystod tymor yr hydref.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig o'ch cyflwyniad at celg.committee@wales.gov.uk

Fel arall, gallwch ysgrifennu at:

Clerc y Pwyllgor
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, CF99 1NA.

Dylai cyflwyniadau ddod i law erbyn **dydd Gwener 11 Tachwedd 2011**. Efallai na fydd modd i ni ystyried ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor wedi gwahodd cyflwyniadau gan y rheini sydd ar y rhestr ddosbarthu sydd ynghlwm. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr at unrhyw unigolion neu sefydliadau nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr hon, ond a fyddai'n hoffi cyfrannu at yr adolygiad. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i roi ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol gyda gwahoddiad agored i gyflwyno barn.

**Datgelu gwybodaeth**

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i Bwyllgor. O ganlyniad, gall eich ymateb ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol i adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi unrhyw wybodaeth a ystyrir yn ddata personol.

Os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth y DU, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu. Gall hyn gynnwys gwybodaeth sydd yn y gorffennol wedi'i dileu gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os ydych yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, dylech nodi'n glir pa rannau na ddylid eu datgelu ynghyd â'ch rhesymau dros atal y deunydd dan sylw. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Yn gywir



Cadeirydd / Chair

**Annex**

Huw Lewis AM
Edwina Hart AM
Aden
Al Fresco
Antena
Arts Council for Wales
Arts and Business Cymru
Atsain
Bang Post Production
Beca TV
BBC
BBC Trust, Wales
BBC Cymru Wales
BECTU
Birmingham City University
Boomerang
British Council – Wales
BT Wales
Calon
Cardiff School of Journalism, Media & Cultural Studies
Carl Morris
Channel 4 Television
Creative Business Wales
Cube Interactive
Cwmni Da
Design Wales, UWIC
Digital UK
Fflic
Fiction Factory
Film Agency for Wales
Fresh Catch Films
Global Innovation Academy, University of Wales
Golwg 360
Green Bay Media Limited
Greenfield
Gtfm Community Radio
Gwylan
Professor Ian Hargreaves
Hiraethog
Jeremy Hunt MP
Indus Films
Institute of Local Television
Institute of Welsh Affairs
ITV plc
ITV Wales
Huw David Jones

Dr Hugh Mackay, Open University
Media Wales
Neil Cocker
Newport University
NWN Media Limited
NUJ Wales
NUJ Cardiff & South East Wales
Ofcom Wales
Ofcom HQ
Professor Tom O'Malley
Producers Alliance for Cinema and Television (PACT)
Public Affairs Cymru
Rhodri ap Dyfrig
Rondo Media
S4C
Scottish Broadcasting Commission
Skillset Cymru
Skillset Media Academy Wales
Swansea University
TAC
Talk about Local
Tindle Newspapers Limited
Trinity Mirror
Town and Country Broadcasting
Wales TUC
WG's Creative Industries Sector Panel
WG's Digital Wales Advisory Board